

Uned Cyfeirio Disgyblion Gogledd Powys
Canolfan Addysg Llwybr
Yr Hen Goleg
Oddi ar Ffordd yr Orsaf
Y Drenewydd
Powys
SY16 1BE

13/10/2026

Annwyl arweinwyr a staff

Ymweliad interim: Medi 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) Gogledd Powys yn ddiweddar i ystyried sut mae'r UCD wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dwy o'r blaenoriaethau yn ei chynllun datblygu.

Sefydlwyd UCD Gogledd Powys ym mis Mawrth 2025. Cyn hynny, roedd darpariaeth cyfeirio disgyblion yn gweithredu fel un gwasanaeth ar draws dau safle, un yng Ngogledd Powys ac un yn Ne Powys. Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Ebrill 2026, ac ymunodd y dirprwy bennaeth â'r UCD ar 1 Medi 2026. Hwn yw'r ymweliad interim cyntaf â'r UCD.

Hoffai'r tîm ddiolch i'r staff a'r disgyblion yn yr UCD am eu cydweithrediad â'r ymweliad hwn, ac am y croeso cynnes a gawsant.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, edrych ar waith disgyblion, craffu ar dystiolaeth a siarad â disgyblion, staff, ac arweinwyr.

Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y ddau argymhelliad.

Ffocws yr ymweliad

Pa mor effeithiol y mae'r cwricwlwm yn diwallu anghenion, diddordebau a dyheadau disgyblion?

- Yn y cyfnod byr ers eu penodi, mae uwch arweinwyr yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) wedi dod ag egni, brys a ffocws i'w rolau ac i weithrediadau'r UCD, yn gyffredinol. Maent wedi cynnal hunanwerthusiad priodol, er enghraifft craffu ar gynllunio'r cwricwlwm. O ganlyniad, maent wedi nodi diffygion pwysig mewn darpariaeth ac wedi llunio cynlluniau addas i gryfhau a datblygu'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'n

ddyddiau cynnar iawn o ran rhoi'r cynlluniau hyn ar waith, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'u heffaith.

- Yn y cyfnod byr ers eu penodiadau, mae uwch arweinwyr wedi defnyddio llais y disgybl yn effeithiol i bennu uchelgeisiau, diddordebau a barnau disgyblion ynglŷn â'u cwricwlwm a'u hamgylchedd dysgu. O ganlyniad, maent wedi meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol â disgyblion yn gyflym. Ar ben hynny, mae'r drefn glir hon i flaenoriaethu llais y disgybl wedi cael effaith fuddiol ar les disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.
- Mae arweinwyr yn dechrau darparu goruchwyliaeth weithredol a strategol o ddarpariaeth. Maent yn datblygu systemau i olrhain, monitro a rheoli darpariaeth y cwricwlwm yn briodol. O ganlyniad, mae'r UCD yn dechrau darparu cwricwlwm teilwredig ar gyfer disgyblion sy'n diwallu eu hanghenion ac yn ymatebol i'w cynnydd. Yn nodedig, mae'r ffocws hwn ar lwybrau unigolledig ac ymatebol ar gyfer disgyblion yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion.
- Mae llwybrau personoledig, gweithgareddau ymarferol a chyfleoedd cyfoethogi yn dechrau ymateb yn dda i anghenion unigol disgyblion ac yn eu cymell i fynychu ac ymgysylltu â dysgu. Mae'r cwricwlwm eang, trwy brofiad, gan gynnwys lleoliadau gwaith buddiol, yn dechrau cefnogi hyder ac annibyniaeth disgyblion, ac yn eu paratoi ar gyfer byd oedolion.
- Fodd bynnag, nid yw'r cwricwlwm yn ddigon cydlynus na dilyniannol eto. Nid yw cynlluniau gwaith yn amlinellu'n gyson sut mae disgyblion yn meithrin eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau dros gyfnod.
- I gefnogi gwaith arweinwyr i gryfhau darpariaeth cwricwlwm yr UCD, efallai byddai'r Awdurdod Lleol a'r arweinwyr eisiau ystyried y canlynol:
 - Mae adeiladau a chyfleusterau presennol yr UCD yn gosod cyfyngiadau sylweddol ar natur a chwmpas darpariaeth y cwricwlwm. Er enghraifft, yn CA4, nid oes unrhyw gyfleusterau arbenigol ar hyn o bryd i alluogi cyflwyno cymwysterau achrededig penodol, gan gynnwys gwyddoniaeth TGAU a chysiau galwedigaethol. Ar ben hynny, dylid ystyried gwahanol anghenion disgyblion cynradd ac uwchradd o ran amgylchedd dysgu.
 - Ar hyn o bryd, mae cyfleoedd cyfyngedig i arweinwyr ymgymryd â dysgu proffesiynol sy'n mynd i'r afael ag arweinyddiaeth cwricwlwm sy'n benodol i UCD.

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Pa mor effeithiol y caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio, eu deall a'u cyflawni ar draws yr UCD?

Cryfderau:

- Mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd pwysig yn cadarnhau rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr ar ôl cyfnod maith o ansefydlogrwydd. Mae penodi pennaeth a dirprwy bennaeth parhaol yn darparu strwythur arwain cliriach ac yn dechrau gwella parhad, cyfathrebu a sefydlogrwydd sefydliadol ar draws yr UCD. Fodd bynnag, gan mai dim ond ym mis Ebrill 2026 y dechreuodd y pennaeth yn ei swydd, a'r dirprwy bennaeth ym mis Medi 2026, mae'n ddyddiau cynnar o hyd o ran effaith y trefniadau hyn.
- Mae uwch arweinwyr wedi dyrannu cyfrifoldeb yn glir ar gyfer sawl agwedd bwysig ar waith yr UCD. Er enghraifft, mae'r pennaeth yn arwain presenoldeb, ymddygiad, cwricwlwm a diogelu, tra bod gan y dirprwy bennaeth gyfrifoldeb am ADY, diogelu, llythrennedd a'r cwricwlwm. Mae hyn yn darparu llinellau cyfrifoldeb cliriach ar gyfer staff nag yn y gorffennol ac yn cefnogi hyder gwell mewn arwain agweddau allweddol ar y ddarpariaeth.
- Mae arweinwyr yn dechrau dosbarthu cyfrifoldebau y tu hwnt i'r uwch dîm arweinyddiaeth. Mae gan ychydig iawn o athrawon gyfrifoldebau dynodedig am ddiogelu a phrofiad gwaith, tra bod cynorthwyrwyr addysgu wedi nodi cyfrifoldebau am gymorth ac ymyriadau ystafell ddosbarth. Mae hyn yn dechrau ehangu gallu arwain ac yn gwneud defnydd gwell o arbenigedd staff.
- Mae trefniadau arwain gwell yn cyfrannu at weithrediad yr UCD o ddydd i ddydd. Er enghraifft, systemau a disgwyliadau cliriach, cyfathrebu cryfach a morâl staff gwell. Mae'r datblygiadau hyn wedi cyfrannu at ddiwylliant mwy pwyllog a chynyddol gyson, ochr yn ochr â gwelliannau yn ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion.
- Caiff cyfrifoldebau am flaenoriaethau gwella presennol eu nodi'n gynnar o fewn y cynllun datblygu ysgol (CDY). Mae blaenoriaethau wedi enwi uwch arweinwyr, ac mae camau gweithredu unigol yn nodi staff cyfrifol, graddfeydd amser a cherrig milltir bwriadedig. Mae hyn yn darparu fframwaith cynyddol ddefnyddiol y gall arweinwyr sefydlu atebolrwydd ar gyfer gweithgarwch gwella trwyddo.
- Mae arweinwyr yn dechrau cynnwys staff gyda'i gilydd mewn gwaith gwella. Er enghraifft, mae datblygu'r cwricwlwm thematig a llwybrau personoledig yn nodi cyfrifoldebau ar gyfer pob un o'r staff, tra bod gweithgareddau dysgu proffesiynol,

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

monitro ac adolygu yn cael eu cynllunio i gynorthwyo staff i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn fwy cyson.

- Mae'r eglurder gwell o ran cyfrifoldebau staff yn cefnogi diwylliant perthynol cryf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn nodi bod perthnasoedd cadarnhaol â staff yn nodwedd hynod gref o'r UCD, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'u bod yn gallu troi at oedolion am gymorth. O ganlyniad, mae staff yn deall ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau bugeiliol yn effeithiol mewn llawer o agweddau ar eu gwaith o ddydd i ddydd.

I gefnogi eu gwaith i gryfhau rheolaeth a chyfeiriad strategol yr UCD, gallai arweinwyr fod yn dymuno ystyried y canlynol:

- Mae nifer sylweddol o gyfrifoldebau strategol wedi eu rhannu rhwng y ddau uwch arweinydd. Ar hyn o bryd, mae gan y pennaeth gyfrifoldeb am sawl maes sylweddol, yn cynnwys ymddygiad, presenoldeb, y cwricwlwm a diogelu, ochr yn ochr â'i chyfrifoldebau ehangach, a hithau'n bennaeth ac yn Rheolwr Ymddygiad yr awdurdod lleol. Gallai hyn gyfyngu ar y graddau y caiff arweinyddiaeth ei dosbarthu go iawn, ac yn creu risg fod gwaith gwella yn rhy ddibynnol ar nifer fach o unigolion o hyd.
- Mae angen cryfhau trefniadau atebolrwydd ymhellach. Ers penodi'r arweinwyr, mae monitro wedi dod yn fwy systematig, ond mae hunanwerthusiad yr UCD ei hun yn cydnabod ei bod yn parhau i ganolbwyntio gormod ar gydymffurfio yn hytrach nag ar werthuso effaith. Yn ychwanegol, mae angen datblygu her ac atebolrwydd y pwyllgor rheoli ymhellach. O ganlyniad, ni all arweinwyr ddangos yn gyson eto pa mor effeithiol y mae unigolion yn cyflawni eu cyfrifoldebau neu'r gwahaniaeth y mae eu gwaith yn ei wneud i ddisgyblion.

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr UCD a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:

<https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/6661103>

Yn gywir



Dyfrig Ellis

Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.